



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Perfformiad

Dyddiad: Dydd Gwener, 22
Mehewfin 2012

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 28 MEHEFIN 2012** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HWN Y CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 PENODI IS-GADEIRYDD

I benodi Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad i'r flwyddyn sydd i ddod

3 DATGAN BUDDIANNAU

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol i unrhyw fusnes sydd wedi'i glustnodi i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

4 MATERION BRYD Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau a ddylid, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 1 - 8)

I dderbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd Ddydd Iau, 5 Ebrill, 2012 (copi wedi'i amgáu).

9:40am - 9:45am

6 CYNLLUN GWEITHREDU ESTYN (Tudalennau 9 - 48)

I ystyried adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Addysg, Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg, Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau a Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (Cynllunio a Pherfformiad Busnes) (copi wedi'i amgáu) sy'n cyflwyno'r cynllun gweithredu a luniwyd mewn ymateb i argymhellion yr arolwg diweddar ar ansawdd gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio safbwyntiau Aelodau ar addasrwydd y gweithredoedd a'r amserlenni yn y cynllun gweithredu.

9.45am - 10.15am

7 MEITHRIN GALLU MEWN YSGOLION (Tudalennau 49 - 52)

I ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cyllid Addysg (copi wedi'i amgáu) sy'n manylu ar y deilliannau yn dilyn gweithredu'r prosiect, ac sy'n amlinellu effaith y prosiect ar ysgolion a datblygiadau a gynlluniwyd i'r dyfodol. Mae'r adroddiad yn gofyn i Aelodau adolygu'r canlyniadau hyd yma, ac asesu gallu ysgolion i wella safonau trwy ddefnyddio'r adnodd hwn.

10.15am - 10.45am

EGWYL

10.45am – 11am

8 ADRODDIAD PERFFORMIAD CORFFORAETHOL: CHWARTER 4 (Tudalennau 53 - 82)

I ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwella Corfforaethol (copi wedi'i amgáu) sy'n galluogi'r Cyngor i werthuso cynnydd ar draws meysydd perfformiad allweddol ac yn galluogi'r Pwyllgor i weithredu ei swyddogaeth rheoli perfformiad.

11am - 11.30am

9 SAFONAU PERFFORMIAD YN CAEL EU DATGELU DRWY'R BROSES GWYNO (Tudalennau 83 - 100)

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Cwynion Corfforaethol (copi wedi'i amgau) sy'n dadansoddi'r adborth a dderbyniwyd trwy gyfrwng y polisi adborth cwsmeriaid 'Eich Llais' yn ystod Chwarteri 3 a 4 2011/12 ac sy'n amlygu meysydd lle gellid gwella'r polisi a'r broses. Mae'r adroddiad yn ceisio safbwyntiau Aelodau ar sut y gellid gwella polisiau a phrosesau yn y maes hwn.

11.30am - 12pm

10 RHAGLEN WAITH PWYLLGOR CRAFFU (Tudalennau 101 - 124)

I ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi wedi'i amgau) yn ceisio adolygiad o flaen-raglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o faterion perthnasol i Aelodau.

11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

I dderbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL

Dim eitemau

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Ian Armstrong
William Cowie
Richard Davies
Huw Hilditch-Roberts
Colin Hughes

Geraint Lloyd-Williams
Peter Owen
Allan Pennington
Arwel Roberts
Gareth Sandilands

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 6 7 yn unig)

Ms C. Burgess
Mrs. G. Greenland
Ms. D. Houghton

Dr. D. Marjoram
Mr. J. Saxon

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 5 Ebrill 2012 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Bobby Feeley (Cadeirydd) a/ac Huw Jones (Is-Gadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyngorwydd Bill Cowie, Y Cyngorwydd Meirick Lloyd Davies, Y Cyngorwydd Selwyn Thomas a/ac Y Cyngorwydd Julian Thompson Hill

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) Colin Hughes, Rhys Hughes a/ac David Lee

2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu mewn unrhyw eitem o fusnes.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 23ain Chwefror, 2012.

Materion yn codi:-

Trwyddedu tacsis

Cyfeiriodd y Cydlynnydd Craffu (SC) at ymholiad a godwyd gan y Cyngorwydd T.R. Hughes yn y cyfarfod blaenorol ynglŷn â thrwyddedu tacsis sy'n gweithredu yn Sir Ddinbych gan awdurdodau lleol eraill. Roedd ymateb wedi'i gyflwyno gan Bennaeth Archwilio Mewnol (a gynhwyswyd yn Niweddariad Gwybodaeth Pwyllgor Craffu Perfformiad a baratowyd gan SC ac a rannwyd yn y cyfarfod), a oedd yn cadarnhau nad oedd gan y Cyngor ddim rheolaeth dros yrwyd tacsis a oedd wedi'u trwyddedu mewn ardaloedd eraill sy'n gweithredu yn y sir, ond yn nodi y byddai cyflwyno

gwiriadau CRB manylach gorfodol ar draws y DU o ddiwedd Ebrill 2012 yn mynd peth ffordd tuag at sicrhau cydymffurfiaeth â safonau CSDd ar gyfer trwyddedau a ganiateir yn allanol. Serch hynny, cyfaddefwyd nad oedd dim deddfwriaeth yn bodoli a fyddai'n gorfodi cerbydau i gwrdd â safonau archwilio cerbydau CSDd ar gyfer trwyddedau a roddir y tu allan i'r Sir.

Gofynnodd y Cynghorydd L.M. Morris a oedd yn bosibl ychwanegu gofyniad i dacsis a ddefnyddir i gludo plant ysgol gael eu trwyddedu gan CSDd. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (PGCARh) y byddai hyn yn debygol o fod yn gyfystyr â chyfyngu'n annheg ar fasnachu, ond ychwanegodd fod angen trwydded bellach i gludo plant ysgol sy'n fwy llym na'r drwydded tacsî safonol. Awgrymodd y Cynghorydd I.A. Gunning y dylai gwiriadau CRB gael eu gwneud yn flynyddol a dywedwyd wrtho eu bod yn cael eu gwneud bob 3 blynedd ar hyn o bryd, ond bod dalwyr trwyddedau yn gorfod arwyddo ffurflen bob blwyddyn i gadarnhau nad ydynt wedi'u cael yn euog o unrhyw drosedd. Pwysleisiodd Pennaeth Archwilio Mewnol (PAM) fod cyflwyno gwiriadau CRB manylach ar gyfer pob gyrrwr tacsî trwyddedig yn golygu mai'r prif fater i'w ddatrys oedd sicrhau addasrwydd cerbydau.

Dywedodd PAM fod ei dîm yn archwilio trwyddedu a diogelu tacsîs ar hyn o bryd a rhagwelai y byddai adroddiad am ganfyddiadau'r tîm ar gael i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Gorffennaf neu fis Medi.

PENDERFYNWYD – *derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel rhai cywir.*

5 APELIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio adroddiad, a gylchlythyrwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn rhoi dadansoddiad o benderfyniadau apeliadau cynllunio o fis Ebrill 2011 hyd yma. Gofynnwyd am yr adroddiad ar ôl ystyried eitem ar berfformiad cyffredinol Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad, pan oedd pryder wedi'i godi ynghylch y cynnydd yng nghyfran yr apeliadau cynllunio llwyddiannus.

Eglurodd PGCARh fod tua 10% o geisiadau cynllunio yn cael eu gwrthod ac er mis Ebrill 2011 roedd 18 apêl wedi'i chyflwyno yn erbyn penderfyniadau i wrthod caniatâd cynllunio. O'r apeliadau hyn, roedd 7 wedi'u caniatáu a gwrthodwyd 18. Oherwydd maint y sampl, gallai newid bach yn y patrwm gael effaith arwyddocaol ar yr ystadegau ac awgrymodd PGCARh nad oedd y cynnydd sydyn yn yr apeliadau llwyddiannus i'w briodoli'n awtomatig i wneud penderfyniadau gwael yn y lle cyntaf, gyda'r ystadegau ar gyfer y flwyddyn bresennol bellach yn dangos gostyngiad yng nghyfran yr apeliadau llwyddiannus.

Gwnaeth y Cadeirydd y sylw, o'r 8 penderfyniad a wnaed gan swyddogion dan awdurdod dirprwyedig yr apeliwyd yn eu herbyn, bod 4 o'r apeliadau hyn wedi bod yn llwyddiannus, a gofynnodd a oedd y penderfyniadau a wnaed gan swyddogion yn hollol gytbwys. Cydnabu'r Rheolwr Rheoli Datblygu (RhRhD) yr angen i swyddogion fod wedi'u hyfforddi'n llawn, ond eglurodd fod gwneud penderfyniadau

yn weithred falansio anodd a bod swyddogion, mewn achosion dadleuol, yn tueddu i ddilyn barn y Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol. Gwnaeth y Cynghorydd G.C. Evans y sylw fod y dylanwad yr oedd gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses yn annog eu haelodaeth i gredu bod ganddynt yr hawl penderfynu mewn materion cynllunio. Roedd angen clir i gynghorau tref a chymuned gael eu hyfforddi'n llawn ar ddeddfwriaeth gynllunio a bod yn gyfarwydd â'u rôl yn y broses ceisiadau cynllunio. Tynnodd y Cynghorydd Evans sylw'r Pwyllgor hefyd at yr angen i aelodau Cydbwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) (yn cynnwys eu swyddogion) dderbyn hyfforddiant priodol yn y materion hyn ac i'r hyfforddiant hwnnw bwysleisio'r pwysigrwydd i'r AHNE ffurfio argymhellion clir, hawdd eu deall mewn perthynas â cheisiadau cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol. Yn ogystal cododd y Cynghorydd Evans nifer o faterion yn ymwneud â dehongli 'swyddogaethau penodol' y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau dirprwyedig, ac â defnydd ac effeithiolrwydd 'hysbysiadau atal' a hysbysiadau s.215 yn erbyn tir aflêr dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Cadarnhaodd PGCARh mai dim ond llawn llaw o 'hysbysiadau atal' a oedd wedi'u cyhoeddi er 1996.

Cydnabu'r Cynghorydd I.A. Gunning yr anhawster wrth fodloni pawb mewn anghydfod cynllunio, a gofynnodd a oedd yn bosib datblygu deialog agosach rhwng preswylwyr a datblygwyr trwy gyfryngu neu ymgysylltu'n well â chymdeithasau preswylwyr lleol. Awgrymodd hefyd y gall fod yn ddefnyddiol petai'r hyfforddiant a oedd i'w gyflenwi i gynghorau tref a chymuned yn cael ei ymestyn i gymdeithasau preswylwyr. Hysbysodd PGCARh fod proses statudol ar gyfer cyfryngu yn bodoli, ond y byddai ag angen cyfranogiad y ddwy ochr ac nad oedd pob datblygwr yn awyddus i gymryd rhan yn y broses. Ychwanegodd RhRhD y dylai ymgysylltu â phreswylwyr lleol yn gynnar gael effaith gadarnhaol. Awgrymodd unwaith yr oedd yr hyfforddiant wedi'i gyflenwi i bob cyngor tref a chymuned y gellid rhoi ystyriaeth i'w ymestyn i fudiadau megis cymdeithasau preswylwyr. Haerodd y Cynghorydd S. Thomas fod y Cynghorau Tref yn agwedd hanfodol ar y broses gwneud penderfyniadau oherwydd eu hagosrwydd at eu cymunedau a materion lleol.

Gofynnodd y Cynghorydd L.M. Morris sut oedd perfformiad CSDd mewn cynllunio yn cymharu â lefelau cenedlaethol a dywedodd y RhRhD fod y Cyngor yn cael ei gyfrif yn ystadegol yn y chwarterl uchaf yng Nghymru ar gyfer cyfran yr amddiffyniadau llwyddiannus yn erbyn apeliadau. Eglurodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol (RhGC) fod dangosyddion cenedlaethol wedi newid yn ddiweddar fel mai dim ond 'dangosyddion strategol' cyffredinol fyddai'n berthnasol. Mae'r 'dangosyddion craidd' yn rhoi gwybodaeth fwy penodol ond nid oedd awdurdodau lleol yn gorfod cyhoeddi gwybodaeth yn erbyn y dangosyddion hyn bellach, ac felly bu mesur perfformiad cymharol yn anodd ei wirio. Gwnaeth y Cadeirydd y sylw fod hyn yn golygu y byddai'n anodd hefyd i'r cyhoedd benderfynu pa mor effeithiol y bu perfformiad y Cyngor, ond dywedodd y RhGC fod y dangosyddion y mae CSDd yn eu defnyddio yn fwy pwysig wrth glustnodi meysydd o wendid ac ysgogi ymyriad yn hytrach nag ar gyfer dibenion cymharol a thargedu.

Amlygodd y Cynghorydd M.L. Davies broblem gyda sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau cynllunio, yn enwedig yr amser a gymerir i orfodi penderfyniadau, y

dywedodd PGCARh ei fod i'w briodoli i'r broses apelio statudol yn hwyhau'r camau ar gyfer gorfodi.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor:

a) yn nodi'r adroddiad a chanlyniadau apeliadau cynllunio dros y flwyddyn ddiwethaf;

b) yn argymhell bod dangosyddion perfformiad sy'n mesur effeithiolrwydd ymyriad a chyfryngu yn y broses gynllunio yn cael eu datblygu at ddibenion monitro perfformiad;

c) yn argymhell bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddatblygu a'i gyflenwi i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE sy'n cymryd rhan yn unrhyw broses argymhell ffurfiol yn ymwneud â cheisiadau cynllunio i'w galluogi i gyflawni'r swydd yma yn effeithiol; a

d) yn argymhell fod strategaeth gyfathrebu'n cael ei llunio at ddiben ymgysylltu â chymdeithasau preswylwyr a'r cyhoedd mewn perthynas â materion cynllunio.

6 ADRODDIAD ARIANNOL 2011/2012

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithlonrwydd adroddiad, a gylchlythyrwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd mis Chwefror. Aethpwyd â'r adroddiad i'r Cabinet ym mis Mawrth ac roedd yn cynnwys manylion cyllideb refeniw'r Cyngor a chyllideb y Cyfrif Refeniw Tai.

Hysbyswyd y Pwyllgor o ffigurau cyllidebol diweddar a oedd yn rhoi tanwariant net y Cyngor ar wasanaethau (ac eithrio ysgolion) yn £846k ac yn £400k ar gyllidebau corfforaethol, gyda throsvariant net o £505k yn cael ei ragweld ar gyfer ysgolion. Roedd lwfans o 5% wedi'i ffactoreiddio yn y broses gosod cyllidebau i ddarparu ar gyfer unrhyw lithriant, ond gan y rhagweldid y byddid yn cyflawni'r targed arbedion yn llawn cytunwyd y byddai'r arian a arbedwyd yn cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf i fuddsoddi mewn blaenoriaethau ar gyfer 2012/13. Cytunwyd y dyraniad yn £200k tuag at fuddsoddi ym mhrosiect Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain / Moderneiddio Addysg, gyda £100k yn mynd tuag at gymunedau a datblygu cynlluniau tref.

Gwnaeth y Cynghorydd L.M. Morris y sylw fod y ffigurau yn Atodiad 6 yn dangos bod gan CSDd un o'r ffigurau uchaf ar gyfer dyled y pen o'r boblogaeth mewn perthynas â benthyca darbodus a gofynnodd a oedd hyn yn gynaliadwy. Eglurodd y Prif Gyfrifydd Rheoli (PGRh) fod hyn i raddau helaeth at ddiben dod â'i stoc tai i fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2012 dan Gynllun Busnes y Stoc Tai ar gyfer 2011/12. Roedd hyn yn wariant angenrheidiol yn dilyn penderfyniad y Cyngor i gadw ei stoc tai, ac er nad oedd gan Sir Ddinbych bellach unrhyw ôl-groniad arwyddocaol o waith cynnal a chadw'r stoc tai nad oedd wedi'i ffactoreiddio yn ei chyllideb, roedd awdurdodau eraill eto i gychwyn y darn pwysig hwn o waith.

Rhodddwyd cost gwasanaethu'r ddyled yn tua 7% o incwm y Cyngor, y dywedwyd ei fod yn gyfforddus o hydrin ac ymhell o fewn y terfynau benthyca yr oedd y Cyngor wedi'u gosod. Ailadroddwyd na fyddai CSDd yn benthyca mwy na allai ei fforddio, ac nad oedd asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau benthyca'r Cyngor wedi codi unrhyw bryderon. Ychwanegodd y PGRh os oedd camau cynilo'r Llywodraeth i gael unrhyw effaith ar allu'r Cyngor i ad-dalu'r ddyled oherwydd gostyngiad yn y refeniw y byddai'r Cyngor yn gallu adolygu'r trefniadau ar gyfer ad-dalu'r ddyled.

Holodd y Cynghorydd G.C. Evans a oedd anghenion cymunedau'n dal i gael eu cwrdd gyda'r gostyngiad yn y gwasanaethau. Dywedodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithlonrwydd, y Cynghorydd J. Thompson-Hill mai cyfrifoldeb Penaethiaid Gwasanaethau oedd cyflenwi gwasanaethau, ac y byddai'n rhaid i Gynghorwyr dderbyn y byddai effaith amcanol yr Heriau Gwasanaethau fel yr oedd y Penaethiaid Gwasanaethau wedi'i phennu. Os na allai rhai o dargedau cyflenwi gwasanaethau yr Heriau Gwasanaethau gael eu cyflenwi, dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill y byddai rhywfaint o gyfle i addasu cynlluniau, fel oedd wedi bod yn wir yn barod.

Cydnabuwyd y gallai gwasanaethau ond cael eu haildrefnu hyn a hyn ac y byddai amser yn dod pryd y byddai angen i benderfyniadau anodd gael eu gwneud, megis darparu rhai gwasanaethau gan gyflenwyr allanol o bosibl. Cynigiodd y Cynghorydd H.L. Jones y dylai Penaethiaid Gwasanaethau, yn y cylch nesaf o Heriau Gwasanaethau, roi manylion pa gamau oedd wedi'u cymryd hyd yma a pha mor llwyddiannus y bu'r newidiadau hyn fel ffordd o gyflwyno'r broses a'i chyflawniadau i gynghorwyr newydd a fyddai'n ymgysylltu â'r broses a'r Gwasanaethau am y tro cyntaf.

Cynigiodd y Cynghorydd Evans hefyd y gallai grŵp ar wahân edrych ar y ffigurau a gyflwynwyd yn yr adroddiad ariannol yn fwy manwl, gyda'r Cadeirydd yn awgrymu'r posibilrwydd i aelod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad gynnig persbectif craffu yn y cyswllt hwn trwy fynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio newydd.

Codwyd nifer o faterion hefyd mewn perthynas â'r canlynol:

- Yr angen i'r Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS) dderbyn gwybodaeth lawn er mwyn bod yn sail i wneud penderfyniadau ac i gynrychiolwyr Craffu ar y Grŵp hwnnw a grwpiau eraill, megis y Grwpiau Herio Gwasanaethau, fwydo penderfyniadau/ argymhellion yn ôl i graffu yn rheolaidd trwy'r eitem agenda sefydlog sydd ar gael ar agendâu busnes pob pwyllgor.
- Pryder nad yw adroddiadau cyllid yn derbyn ystyriaeth mor drylwyr ag sydd angen oherwydd eu bod yn cael eu trefnu'n gyson ar ddiwedd agendâu cyfarfodydd.
- Cwestiynau a fyddai'r amrywiant trawiadol yn y gwariant ar gyfer Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedau yn rhoi'r gwasanaeth mewn perygl.
- Yr angen am gyfathrebu effeithiol â phreswylwyr i egluro pam bod rhaid gwneud arbedion ac i liniaru pryderon y bydd gwasanaethau a ddarperir yn cael eu cwtogi.
- Trafodaeth ar sut y gall arbedion a gwargedau cyllidebau gael eu hailfuddsoddi'n fwyaf effeithiol yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor:

a) yn derbyn ac yn nodi'r Adroddiad Cyllid a sefyllfa ariannol y Cyngor yn erbyn strategaeth ei gyllideb a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP);

b) yn argymhell bod manylion llawn mesurau effeithlonrwydd a gymerwyd hyd yma a dadansoddiad o'u heffeithiolrwydd yn cael eu rhoi gan Benaethiaid Gwasanaethau ar ddechrau'r cylch nesaf o gyfarfodydd Herio Gwasanaethau;

c) yn argymhell bod strategaeth gyfathrebu effeithiol yn cael ei chyflwyno i hysbysu preswylwyr o agenda arbedion effeithlonrwydd y Cyngor a'r effaith ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu; a

d) yn argymhell bod Adroddiadau'r Gyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf yn cael blaenoriaeth uwch, o leiaf bob hyn a hyn, ar agenda cyfarfodydd Cyngor llawn er mwyn hwyluso trafodaeth fanwl ar eu cynnwys.

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd Cydlynnydd Craffu adroddiad, a gylchlythyrwyd cyn y cyfarfod, yn gofyn i'r aelodau adolygu Blaenraglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol. Roedd blaenraglen waith ddrafft (Atodiad 1), blaenraglen waith y Cabinet (Atodiad 2), a thabl yn dilyn y cynnydd a wnaed yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor (Atodiad 3) wedi'u rhoi ynghlwm wrth yr adroddiad.

Hysbyswyd y Pwyllgor na fyddai adroddiad yn manylu ar berfformiad ac adnoddau ariannol y tîm Gorfodi Cynllunio y gofynnwyd amdano mewn cyfarfod blaenorol ar gael gan fod Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ag eisiau adroddiad mwy cynhwysfawr ar sut y gallai'r adran Gyfreithiol a Gorfodi Cynllunio weithio gyda'i gilydd yn agosach. Roedd y Cadeirydd wedi cytuno i ohirio ystyried yr adroddiad tan gyfarfod yn y dyfodol.

Eglurodd Cydlynnydd Craffu fod gan ddau gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad a oedd wedi'u trefnu ar gyfer 28ain Mehefin a'r 6ed Medi ill dau fwy o eitemau i'w hystyried na'r nifer optimwm o bedair eitem, oherwydd yr etholiad lleol ym mis Mai a'r arferiad i beidio â threfnu cyfarfodydd Cyngor ym mis Awst. Roedd Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu wedi awgrymu bod cyfarfod ychwanegol i'w gynnal ym mis Gorffennaf fel help i eitemau gael eu dosbarthu'n hawsach, a chytunodd y Pwyllgor y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer 26ain Gorffennaf.

Ar ôl ystyried penderfynodd y Pwyllgor wneud y newidiadau canlynol i'r Flaenraglen Waith:

- 28ain Mehefin – Ychwanegu adroddiad ar yr 'Adolygiad o Drwyddedu a Diogelu Taccis'.

- 26ain Gorffennaf – ‘Gorfodi Cynllunio’, ‘Adroddiad Ariannol 2011/12 a Diweddariad 2012/2013’ a ‘Monitro’r Rhaglen Gyfalaf’ wedi’u trosglwyddo i’r cyfarfod hwn.
- 6ed Medi – Ychwanegu adroddiad ar ‘Diweddariad ar y Broses Herio Gwasanaethau’.

Nodwyd y gallai o bosibl fod dau newid i aelodaeth gyfetholedig statudol addysg ar bwyllgorau Craffu yn ystod 2012, gan fod tymor dau o’r aelodau yn y swydd yn dod i ben.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y newidiadau y cyfeiriwyd atynt uchod, cymeradwy’r Flaenraglen Waith fel y’i nodwyd yn Atodiad 1 i’r adroddiad.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Colin Hughes, Rhys Hughes a/ac David Lee

9 MONITRO’R RHAGLEN GYFALAF

PENDERFYNWYD dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol am y rheswm eu bod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y’i diffiniwyd ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

RHAN II

Cyflwynodd y Prif Gyfrifydd Rheoli adroddiad cyfrinachol, a gylchlythyrwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn cyflenwi’r Pwyllgor â Chynllun Cyfalaf wedi’i ddiweddarau ar gyfer 2011/12 – 2014/15, yn cynnwys y prosiectau a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 28ain Chwefror 2012, i’w hymgorffori yng Nghynllun Cyfalaf 2012/13. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion datblygiadau diweddar mewn perthynas â phrif brosiectau’r Cynllun Cyfalaf, caffaeliadau a dymchweliadau eiddo.

Gofynnodd y Cynghorydd L.M. Morris sut oedd y gyllideb cyfalaf yn perthnasu â’r fframiau amser a oedd wedi’u gosod, ac eglurodd y PGRh sut y bu rhywfaint o lithriant wrth amserlennu ond bod y gyllideb yn gwneud lwfans ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd. Eglurwyd bod y rhan fwyaf o brif gynlluniau’r rhaglen gyfalaf yn cael eu cyllido naill ai drwy grantiau neu drwy gynlluniau benthyca darbodus, felly roedd amserlennu gwaith wedi’i seilio o ganlyniad ar ragdybiaethau ynghylch pryd y byddai cyllid grant ar gael i’w dynnu i lawr. Mewn rhai achosion byddai cyllid yn dibynnu ar fod prosiectau’n gallu cwrdd â therfynau amser ac felly nodwyd y gallai llithriant wrth ymlynu wrth gynlluniau gostio symiau sylweddol o arian i’r Cyngor yn y diwedd os na chaiff ei reoli’n iawn. Ni ellid osgoi peth oedi ond pwysleisiodd y PGRh na fyddai gwaith cyfalaf yn cael ei drefnu os nad oedd gobaith rhesymol iddo gael ei gyflawni.

Cododd aelodau'r Pwyllgor nifer o faterion gyda'r Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithlonrwydd a'r PGRh, ac yn ystod y drafodaeth rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

- Cynlluniau wrth gefn os digwydd i brosiect dan y Cynllun Cyfalaf arafu.
- Yr angen i brynu defnyddiau cyn cwblhau'r dyluniad terfynol fel 'risg bwriadol' i alluogi i derfynau amser gael eu cwrdd.
- Diffyg eglurder ynghylch y Gwaith Cludiant Gweithle Ysgolion y cyfeiriwyd ato yn yr Atodiad yn manylu ar ffigurau terfynol Moderneiddio Addysg.
- Pryder ynghylch pa un a allai'r dyraniad cyfalaf ar gyfer y cynllun atal llifogydd yng Nghorwen gael ei roi mewn perygl, petai'r cynllun yn cael ei ddal yn ôl am 12 mis;
- Trafodaeth ar sut oedd elw o werthu eiddo CSDd yn cael ei ailfuddsoddi

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r Cynllun Cyfalaf am y cyfnod 2011/12 i 2014/15.

Hysbysodd y Cynghorydd Thompson-Hill y Pwyllgor fod y Prif Gyfrifydd Rheoli, Richard Weigh, wedi'i benodi'n ffurfiol yn ddiweddar i swydd Prif Gyfrifydd Rheoli a Dirprwy Swyddog Adran 151 yn barhaol, a chynigiodd y Pwyllgor eu llongyfarchiadau ar hynny.

Mynegodd aelodau'r Pwyllgor eu diolchgarwch i'r Cynghorydd Thompson-Hill am ei bresenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd Pwyllgor Craffu a chanmolasant ei frwdfrydedd a'i ddawn yn ei rôl fel Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithlonrwydd. Bu iddynt fynegi eu gwerthfawrogiad iddo hefyd am ymgysylltu o'i wirfodd â chraffu heb geisio rhwystro neu ymyrryd â'r broses graffu.

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor cyn yr etholiadau lleol, dymunodd y Cadeirydd lwc yn y dyfodol i'r Cynghorwyr sy'n ymadael a dymunodd lwc dda i aelodau eraill y Pwyllgor yn eu hymgyrchoedd etholiadol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:15pm.

Adroddiad i:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	28 Mehefin 2012
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol dros Addysg/ Pennaeth Addysg
Awduron yr Adroddiad:	Pennaeth Addysg, Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg, Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau a Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (Cynllunio a Pherfformiad Busnes)
Teitl:	Y gweithredu yn dilyn arolwg ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych.

1. Beth yw testun yr adroddiad?

- 1.1 I ystyried y cynllun gweithredu a luniwyd mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad diweddar ar ansawdd gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

- 2.1 Bydd monitro gweithrediad y cynllun gweithredu yn sicrhau bod unrhyw wendidau a nodwyd yn cael sylw er mwyn darparu gwasanaeth o well ansawdd a deilliannau gwell i ddisgyblion.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 I adolygu pa mor briodol yw'r gweithredoedd a'r amserlenni o fewn y cynllun gweithredu yn dilyn yr arolwg mewn ymateb i argymhellion Arolwg Estyn (Atodiad 1) a chynnig sylwadau yn ôl yr angen.

4. Manylion yr adroddiad.

- 4.1 Mae prif ganfyddiadau adroddiad Arolwg Estyn yn dangos bod yr Awdurdod Lleol wedi cyflawni'r canlynol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Barnwyd yn Dda.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Barnwyd yn Dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Barnwyd yn gyffredinol i fod yn Dda.

- 4.2 Barnwyd bod yr holl agweddau eraill hefyd yn dda ac eithrio Arweinyddiaeth a farnwyd yn Rhagorol.
- 4.3 “Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion yn Sir Ddinbych yn rhoi blaenoriaeth uchel i wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae ganddynt weledigaeth glir a dyheadau uchel ar gyfer yr awdurdod ac yn cyfleu’r rhain yn dda iawn. Mae’r arweinyddiaeth gydlynol ac effeithiol yn golygu bod agwedd y cyngor at ddod yn ‘gyngor sy’n perfformio’n uchel, yn agosach at y gymuned’ eisoes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.”
- 4.4 “Mae’r cyngor wedi ad-drefnu ei drefniadau craffu yn dri phwyllgor ar gyfer partneriaethau, cymunedau a pherfformiad ac mae pob gwasanaeth yn adrodd am wahanol agweddau ar eu gwaith i’r pwyllgor perthnasol. O ganlyniad, mae gan aelodau sy’n craffu drosolwg gwell ar draws y cyngor cyfan ac mae ystod ehangach o aelodau yn deall materion addysg. Gall aelodau yn awr gymharu a herio gwasanaethau’n fwy effeithiol a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus. Yn ychwanegol, mae ymglymiad ar draws y pleidiau yn y broses graffu yn golygu y gall pob aelod weithio tuag at nod cyffredin i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.” Estyn 2012.
- 4.5 **Barn gyffredinol: Da – Mae perfformiad presennol yn dda oherwydd:**
- bod perfformiad wedi gwella ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
 - bod perfformiad wedi gwella yn erbyn meincnodau disgwylidig Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar hawl i brydau ysgol am ddim;
 - bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda ac yn cymharu’n dda â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg mewn mannau eraill;
 - bod nifer y gwaharddiadau wedi gostwng ac oherwydd mai’r nifer gyffredinol o ddiwrnodau a gollwyd yn sgil gwaharddiadau yw’r isaf yng Nghymru;
 - bod yr awdurdod wedi gwneud trefniadau da iawn i gefnogi a herio ysgolion ac yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn;
 - bod y cymorth ar gyfer gwella ysgolion, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol i gyd yn dda;
 - bod nifer ysgolion Sir Ddinbych y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl arolygiad ymhlith yr isaf yng Nghymru;
 - bod yr awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn cyflawni ei raglen Moderneiddio Addysg;
 - bod y diwylliant o arweinyddiaeth gref iawn gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi ysgogi newid a gwelliant sylweddol ar gyflymder da; a
 - bod gwerth da am arian mewn gwasanaethau addysg.
- Fodd bynnag:
- ni chaiff asesiadau athrawon o’r pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 eu safoni’n ddigon manwl i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu safonau dysgwyr yn gywir.

4.6 Gallu i wella: Da – Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod arweinyddiaeth effeithiol a chydlynol gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn cydweithio eisoes wedi ysgogi newid a gwelliant sylweddol mewn gwasanaethau addysg ac mewn deilliannau i ddysgwyr;
- bod data perfformiad yn cael ei ddefnyddio'n drylwyr i arfarnu ansawdd ac effaith gwasanaethau, nodi tanberfformio a chynllunio ar gyfer gwella;
- bod diwylliant o atebolrwydd ac adolygu parhaus, gyda ffocws cyson ar gyflawni cynnydd yn erbyn blaenoriaethau, wedi cael ei ymgorffori'n gadarn ar draws gwasanaethau'r awdurdod;
- bod trefniadau craffu yn hynod effeithiol o ran herio tanberfformio a dwyn swyddogion ac ysgolion i gyfrif;
- bod blaenoriaethau ar gyfer addysg a thargedau i ymgynraedd atynt wedi'u cysylltu'n glir trwy gynlluniau strategol a gweithredol; a
- bod yr awdurdod eisoes wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol ac wedi canolbwyntio adnoddau ar ei flaenoriaethau allweddol.

Fodd bynnag

- nid yw'r awdurdod yn casglu a dadansoddi digon o ddata i fesur ac arfarnu perfformiad gwaith partneriaeth ar y cyd.

5. Argymhellion Estyn

5.1 Er mwyn parhau i wella, mae angen i Gyngor Sir Ddinbych:

5.2 **Argymhelliad -1:** gwella cywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3; a

5.3 **Argymhelliad -2:** nodi'r holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a sefydlu system effeithiol i fesur effaith y gwasanaethau hyn i helpu'r awdurdod a'i bartneriaid i wybod a yw'r rhain yn cynnig gwerth da am arian.

5.4 Mewn ymateb i Adroddiad Estyn, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cynhyrchu cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Mae'r cynllun wedi'i gwblhau o fewn y 70 diwrnod (50 diwrnod gwaith) a nodwyd gan Estyn. (Atodiad 2)

6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

6.1 Mae'n cefnogi agweddau allweddol o'r Cynllun Mawr, cynlluniau busnes gwasanaeth yn ogystal â chyfrannu at Foderneiddio Addysg fel blaenoriaeth gorfforaethol.

7. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

7.1 Ni nodwyd unrhyw gostau penodol ar gyfer yr arolwg a'r cynllun gweithredu yn dilyn yr arolwg. Mae'r holl weithgaredd yn cael ei gynnal gan gyllidebau gwasanaeth a chyllidebau dirprwyedig ysgolion.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

8.1 Bu ymgynghori gyda'r penaethiaid uwchradd a phartneriaid sy'n cefnogi addysg o fewn yr awdurdod a chyrrff cynhaliol.

9. Beth yw'r risgiau, ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Mae'r risgiau gwleidyddol a'r risgiau i enw da'r awdurdod yn fach gan fod y deilliannau o'r arolwg yn dda.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1 Dim gofynion cyfreithiol, ond mae arolygon awdurdod lleol yn orfodol.

10.2 Mae Erthygl 6.3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn datgan y gall pwyllgorau craffu sicrhau bod y gweithgareddau a nodir o fewn cynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith.

Swyddog Cyswllt:

Pennaeth Addysg

Ffôn: 01824 708009



**Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg
awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc**

yng

**Nghyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN**

Ionawr/Chwefror 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Rhagorol

Da

Digonol

Anfoddhaol

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Cyd-destun

Mae Sir Ddinbych yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae'n ffinio â Wrecsam a Sir y Fflint i'r dwyrain, Conwy a Gwynedd i'r gorllewin a Phowys i'r de. Cyfanswm y boblogaeth yw 96,731.

Yn Sir Ddinbych, mae 30.4% o bobl dros dair oed yn dweud eu bod yn medru'r Gymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 24.8%.

Y gyfradd cyflogaeth yn Sir Ddinbych yw 67.6%, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.4%. Mae un deg pump y cant o blant yn byw mewn cartrefi di-waith. O'r boblogaeth sy'n gweithio yn Sir Ddinbych, nid oes gan 11.8% unrhyw gymwysterau, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 13.7%.

Mae 18.9% o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ffigur cenedlaethol, sef 19.7%. Y lefel hon o gymhwyster yw'r 13eg isaf yng Nghymru o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, lle ystyrir mai'r cyntaf yw'r ffigur isaf o ran prydau ysgol am ddim a 22 yw'r uchaf (CYBLD 2011). Dim ond 10 o'r 58 ardal yn Sir Ddinbych sydd yn awr ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar 31 Mawrth 2010, roedd 175 o blant yn Sir Ddinbych yn cael gofal gan yr awdurdod. Roedd 75 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 1.7% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%

Cyd-destun ariannol

Yn 2011-12, Asesiad Gwariant Safonol (AGS)¹ Llywodraeth Cymru i bob pen o'r boblogaeth ar gyfer Sir Ddinbych oedd £1,785, sef y chweched uchaf yng Nghymru, ac mae hyn yn adlewyrchu cynnydd parhaus o gymharu â'r cyfartaledd. Gosododd y cyngor ei gyllideb refeniw cyffredinol ar 101.6% o'r AGS sy'n adlewyrchu'r lefel uwchlaw'r cyfartaledd o Dreth y Cyngor.

Gosododd y cyngor y gyllideb addysg ar lefel o 100.8% o'r gydran addysg dybiannol yn yr AGS. Yn sgil hyn, cynhyrchwyd cyllideb addysg heb grantiau o £4,870 fesul disgybl, sydd ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £4,791. Gostyngodd y gyllideb addysg net 2.9% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd hynny'n cymharu â gostyngiad cyfartalog Cymru o 0.4%.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod yr awdurdod yn dirprwyo 79.1% o'r gyllideb sydd ar gael i ysgolion. Mae hyn uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 76.2% a'r trydydd uchaf, er bod y lefel uchel o incwm a gafwyd gan awdurdodau lleol eraill ar gyfer addysgu disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn ysgolion Sir Ddinbych yn tueddu i chwyddo'r gyfradd ddirprwyo a adroddwyd.

¹ AGS yw'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu Grant Cymorth Refeniw i awdurdodau lleol.

Mae'r cyllidebau dirprwyedig cyfartalog o £3,868 fesul disgybl mewn ysgolion cynradd a £4,315 fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd, yn cynnwys grantiau, ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £3,821 fesul disgybl ar gyfer ysgolion cynradd a £4,272 fesul disgybl ar gyfer ysgolion uwchradd.

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer addysg gynradd yw £4,387 fesul disgybl ysgol gynradd, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd ledled Cymru, sef £4,452. Yn yr un modd, y gyllideb ysgolion uwchradd, yn cynnwys costau annirprwyedig, yw £4,626 y disgybl, sydd ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef £4,752.

Crynodeb

Barn gyffredinol: Da

Mae perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- bod perfformiad wedi gwella ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- bod perfformiad wedi gwella yn erbyn meincnodau disgwyliedig Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar hawl i brydau ysgol am ddim;
- bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda ac yn cymharu'n dda â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg mewn mannau eraill;
- bod nifer y gwaharddiadau wedi gostwng ac oherwydd mai'r nifer gyffredinol o ddiwrnodau a gollwyd yn sgil gwaharddiadau yw'r isaf yng Nghymru;
- bod yr awdurdod wedi gwneud trefniadau da iawn i gefnogi a herio ysgolion ac yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn;
- bod y cymorth ar gyfer gwella ysgolion, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol i gyd yn dda;
- bod nifer ysgolion Sir Ddinbych y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl arolygiad ymhlith yr isaf yng Nghymru;
- bod yr awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn cyflawni ei raglen Moderneiddio Addysg;
- bod y diwylliant o arweinyddiaeth gref iawn gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi ysgogi newid a gwelliant sylweddol ar gyflymder da; a
- bod gwerth da am arian mewn gwasanaethau addysg.

Fodd bynnag:

- ni chaiff asesiadau athrawon o'r pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 eu safoni'n ddigon manwl i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu safonau dysgwyr yn gywir.

Gallu i wella: Da

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod arweinyddiaeth effeithiol a chydlynus gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn cydweithio eisoes wedi ysgogi newid a gwelliant sylweddol mewn gwasanaethau addysg ac mewn deilliannau i ddysgwyr;
- bod data perfformiad yn cael ei ddefnyddio'n drylwyr i arfarnu ansawdd ac effaith gwasanaethau, nodi tanberfformio a chynllunio ar gyfer gwella;
- bod diwylliant o atebolrwydd ac adolygu parhaus, gyda ffocws cyson ar gyflawni cynnydd yn erbyn blaenoriaethau, wedi cael ei ymgorffori'n gadarn ar draws gwasanaethau'r awdurdod;
- bod trefniadau craffu yn hynod effeithiol o ran herio tanberfformio a dwyn swyddogion ac ysgolion i gyfrif;
- bod blaenoriaethau ar gyfer addysg a thargedau dyheadol wedi'u cysylltu'n glir trwy gynlluniau strategol a gweithredol; a

- bod yr awdurdod eisoes wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol ac wedi canolbwyntio adnoddau ar ei flaenoriaethau allweddol.

Fodd bynnag:

- nid yw'r awdurdod yn casglu a dadansoddi digon o ddata i fesur ac arfarnu perfformiad gwaith partneriaeth ar y cyd.

Argymhellion

Er mwyn parhau i wella, mae angen i Gyngor Sir Ddinbych:

A1 wella cywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3; a

A2 nodi'r holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a sefydlu system effeithiol i fesur effaith y gwasanaethau hyn i helpu'r awdurdod a'i bartneriaid i wybod a yw'r rhain yn cynnig gwerth da am arian.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 70 diwrnod (50 diwrnod gwaith) o dderbyn yr adroddiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Da

Safonau: Da

Yn Sir Ddinbych, mae lefelau prydau ysgol am ddim a mesurau amddifadedd eraill wedi cynyddu'n gyflymach nag y maent ledled Cymru yn y tair blynedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, mae perfformiad hefyd wedi gwella'n gyflymach nag y mae ledled Cymru yng nghyfnodau allweddol 2 a 4 fel ei gilydd yn ystod y cyfnod hwn. Fe wnaeth perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 gadw i fyny â pherfformiad ledled Cymru tan 2010, ond gwella'n arafach a wnaeth yn 2011. Yn 2011, roedd canrannau'r dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 2 a 4 uwchlaw cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn cymharu'n well ag awdurdodau eraill nag y gellid ei ddisgwyl pan ystyrir gwybodaeth gyd-destunol. Fodd bynnag, yng nghyfnodau allweddol 1 a 3, disgynnodd perfformiad islaw cyfartaleddau Cymru.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yn 2011 ymhell uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 2 ac islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3. Bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn 2011 ac roedd yn dda. Ar y rhan fwyaf o ddangosyddion, mae mwy o ysgolion na'r cyfartaledd yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg, a llai na'r disgwyl yn y 25% isaf. Ar un o'r pum prif ddangosydd, mae hanner ysgolion yr awdurdod yn y 25% uchaf.

Mae perfformiad Sir Ddinbych yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Mae data dros dro yn awgrymu y gwnaeth yr awdurdod ragori ar y ddau feincnod ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn 2011.

At ei gilydd, mae cynnydd da rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

Yn 2011, roedd y bwlch mewn perfformiad ar y dangosydd pwnc craidd rhwng bechgyn a merched yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ym mhob cyfnod allweddol. Mae grwpiau penodol o ddysgwyr, yn cynnwys grwpiau bregus a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni eu lefelau disgwyliedig ar y cyfan. Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn ennill medrau mewn Cymraeg mamiaith ac ail iaith, ac yn cyflawni safonau da yn y ddau bwnc ar y cyfan.

Bu gwelliant yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol gynradd gyda llythrennedd gweithredol yn 2011 ac mae'n well na'r cyfartaledd ledled Cymru. Mae dysgwyr sy'n cael cymorth i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd da ac mae llawer ohonynt yn cynnal y gwelliant hwn hyd at ddiwedd y cyfnod allweddol.

Yn 2010, bu gwelliant yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig ac mae'n debyg i gyfartaledd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Ieuencid yn gwneud cynnydd cyson ac yn ennill cymwysterau anffurfiol priodol ar draws ystod o feysydd.

Lles: Da

Mae safonau lles yn dda ar y cyfan.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan yn dda mewn ystod o raglenni sy'n hyrwyddo eu hiechyd a'u lles. Maent yn cymryd rhan gynyddol mewn gweithgareddau chwaraeon ac mae eu lefelau cyfranogiad yn cymharu'n dda â lefelau dysgwyr mewn awdurdodau eraill. Mae dysgwyr yn datblygu strategaethau a medrau i'w helpu i gadw'n ddiogel trwy fentrau llwyddiannus sy'n eu helpu i ddeall manteision bwyta'n iach, risgiau ysmegu a'r angen am ddiogelwch ar y ffordd. Mae'r rhaglenni hyn yn eu galluogi i wella eu gwybodaeth a datblygu agweddau a chredoau priodol.

Mae presenoldeb yn dda ac wedi gwella. O gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae tua dwy o bob tair ysgol gynradd yn y 25% uchaf. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn dda hefyd. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae dros 60% ohonynt uwchlaw'r cyfartaledd.

Ychydig iawn o waharddiadau parhaol a geir. Mae'r gyfradd gwaharddiadau byrrach wedi bod ymhlith yr uchaf yng Nghymru er bod data heb ei wirio yn awgrymu i'r gyfradd ostwng yn sylweddol yn 2011. Y nifer o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau yw'r lleiaf yng Nghymru.

